**Sport Wales National Centre**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr: Brian Davies OBE
Chair | Cadeirydd: Baroness, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL

Delyth Jewell AS/MS

01.10.2024

Senedd Cymru
Pierhead St,
Cardiff
CF99 1SN

Annwyl Cadeirydd/Dear Chair

Yn ddiweddar, ymatebodd Chwaraeon Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor ar effaith toriadau yn y gyllideb ar y sector chwaraeon ac edrychaf ymlaen at y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor maes o law fel rhan o'r broses honno.

Wrth i ni ysgrifennu ein hymateb, roedd Chwaraeon Cymru wedi comisiynu astudiaeth Gwerth Economaidd Chwaraeon newydd sbon, ochr yn ochr â holl gynghorau chwaraeon y gwledydd cartref, UK Sport a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bod yr adroddiad pwysig hwn wedi cael ei gyhoeddi heddiw. Mae'r adroddiad, sydd wedi atodi, nid yn unig yn nodi effaith uniongyrchol chwaraeon ar GVA a ffigurau cyflogaeth y genedl, ond mae hefyd yn dangos eu pwysigrwydd yn anuniongyrchol i sectorau eraill gan gynnwys twristiaeth, lletygarwch a'r diwydiant adeiladu. Yr hyn sy'n allweddol o ran effaith chwaraeon yw'r gwariant ychwanegol y mae'r diwydiant chwaraeon yn ei greu mewn sectorau eraill. Mae'r effaith lluosydd yn dangos sut mae gwariant o fewn y diwydiant chwaraeon yn rhaeadru drwy'r economi, gan effeithio ar sectorau amrywiol y tu hwnt i'r pwynt gwariant cychwynnol.

Fel y gwelwch chi, mae chwaraeon yng Nghymru yn helpu i ddarparu **£1.9bn** mewn GVA yn uniongyrchol i economi Cymru, gan sicrhau **38,345** o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Pan edrychwn ar yr effaith ehangach, gan gynnwys eu heffaith anuniongyrchol, mae'r ffigurau hynny'n cael eu cyfrif fel **£2.9bn** a **58,997** o swyddi. Mae'n amlwg felly bod chwaraeon yn hollbwysig i botensial economaidd Cymru. O gymharu hyn ag astudiaethau blaenorol a gynhaliwyd, gallwn hefyd weld bod y sector yn ddiwydiant sy'n tyfu yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig Covid-19 i sicrhau ei fod yn wydn ac yn cael ei warchod.

Mae stori bwerus chwaraeon fel sbardun economaidd a ddangosir yma hefyd yn cael ei hategu gan yr effeithiau hysbys y mae chwaraeon yn eu cael hefyd ar iechyd a lles y genedl.

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Standard
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®

Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru

Fel rydych chi wedi gweld yn flaenorol efallai, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ar ddiwedd 2023, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon, canolfan flaenllaw yn y byd ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, a gadarnhaodd farn Llywodraeth Cymru mai chwaraeon yw'r adnodd iechyd ataliol sy'n cael yr effaith fwyaf yng Nghymru.

Yn y data iechyd yn unig roedd **£621m** o fudd cydnabyddedig drwy atal mwy na **113,000** o achosion o afiechyd. Y tu hwnt i hyn, amcangyfrifwyd yn yr adroddiad bod cyfanswm elw cymdeithasol ar fuddsoddiad chwaraeon i Gymru yn **£5.98bn** y flwyddyn, sy'n golygu bod pob **£1** sy'n cael ei buddsoddi mewn chwaraeon yn dod â **£4.44** yn ôl i'r cyhoedd a'r Llywodraeth.

Gellir gweld manylion llawn yr adroddiad SROI hwnnw yma, a byddem yn falch iawn o gwrdd â chi i drafod y ddau ddarn hollbwysig yma o ymchwil yn benodol.

Wrth i Lywodraeth Cymru adeiladu tuag at y cylch cyllidebol nesaf, rydym yn credu ei bod yn hynod bwysig deall ac ystyried yr effaith y gall chwaraeon ei chael, o ran lles corfforol a meddyliol y genedl, yn ogystal â datblygu sgiliau a chyfleoedd economaidd ei phoblogaeth. Mae'r sector wedi wynebu heriau ariannol eithriadol anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ostyngiadau yn y gyllideb. Rydym, wrth gwrs, yn gwerthfawrogi'r penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod eu gwneud yn erbyn y pwysau ariannol mae'n ei wynebu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn glir bod buddsoddi mewn chwaraeon yn ymrwymiad i'r agenda iechyd ataliol yn ogystal ag economi fywiog, lewyrchus. Bydd unrhyw doriadau yn rhoi'r effeithiau cadarnhaol hyn mewn perygl ac yn cael effaith lluosydd niweidiol ar draws portffolios iechyd ac economaidd. Yn wir, mae'r achos yn glir dros weithredu yn gwbl groes i gyflwyno toriadau.

Edrychaf ymlaen at y cyfle i drafod yr adroddiadau pwysig hyn, a'r heriau a'r cyfleoedd ehangach mae'r sector chwaraeon yng Nghymru yn eu hwynebu, yn y sesiwn pwyllgor sydd i ddod.

Sport Wales recently responded to the Committee's consultation on the impact of budget cuts to the sport sector and I look forward to the opportunity to appear before the Committee in due course as part of that process.

At the time of writing our response, Sport Wales had commissioned a brand-new Economic Value of Sport study, alongside all home country sport councils, UK Sport and the Department for Culture, Media and Sport. I am pleased to update the Committee that this important report has today been published. The report, which is attached, not only identifies the direct impact of sport on the nation's GVA and employment figures, but also demonstrates its importance indirectly to other sectors including tourism, hospitality and the construction industry. Key to the impact of sport is the additional spend the sports industry induces in other sectors. The multiplier effect illustrates how spending within the sport industry cascades through the economy, affecting various sectors beyond the initial point of expenditure.

As you will see, sport in Wales is helping to directly deliver **£1.9bn** in GVA for the Welsh economy, securing **38,345** full time equivalent jobs. When we look at the broader impact including its indirect effect, those figures are calculated at **£2.9bn** and **58,997** jobs. It is therefore clear to see that sport is paramount to Welsh economic potential. Comparing this to previous studies that have been conducted we can also see that the sector is a growing industry in Wales, building on the excellent work that was done in collaboration with the Welsh Government during the Covid-19 pandemic to ensure it was resilient and protected.

This powerful story of sport as an economic driver is also complimented by the known impacts sport has on the nation's health and wellbeing. As you will have previously seen, Sport Wales published a Social Return on Investment (SROI) study in late 2023, undertaken by the world leading Sport Industry Research Centre at Sheffield Hallam University, which confirmed the Welsh Government's view that sport is Wales's most impactful preventative health tool.

Within the health data alone there was a recognised **£621m** of benefit through the prevention of over **113,000** cases of ill-health. Beyond this, the total social return on investment of sport to Wales was estimated within the report to be **£5.98bn** annually, which means that for every **£1** invested in sport there is a **£4.44** return to the public and Government.

The full details of that SROI report can be accessed here, and we would be delighted to meet with you to specifically discuss these two critical pieces of research.

As the Welsh Government builds towards the next budget round, we believe it is incredibly important that the impact sport can have, both in terms of the nation's physical and mental wellbeing, as well on the skill development and economic opportunities of its population, are understood and considered. The sector has faced incredibly difficult financial challenges through recent years of budget reductions. We of course appreciate the difficult decisions that the Welsh Government has had to make against the financial pressures that it faces. However, the evidence is clear that investing in sport is a commitment in the preventative health agenda plus a vibrant, prosperous economy. Any cut will put these positive impacts at risk and have a detrimental multiplier effect across health and economic portfolios. In fact, the case is clear for the opposite.

I look forward to the opportunity to discuss these important reports, and the wider challenges and opportunities faced by the sport sector in Wales in the upcoming committee session.

Yours Sincerely,

Brian Davies OBE

Prif Weithredwr/Chief Executive

Chwaraeon Cymru/Sport Wales

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Standard
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®

Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru